# DAD-DDOFI EIN DYFROEDD MEWN OES O WYNT ALLTRAETH

**BRIFF YMARFERYDD, MEHEFIN 2026**

**YN SEILIEDIG AR GANFYDDIADAU ADRODDIAD YMCHWIL CYNHWYSFAWR A GOMISIYNWYD YN 2025**

**Disgwylir i ddatblygiad gwynt alltraeth ehangu'n gyflym yn y blynyddoedd i ddod, gyda thargedau hinsawdd y DU yn anelu at gynnydd pedair gwaith drosodd i 50GW erbyn 2030, ac yn dyblu i 100GW erbyn 2050.**

Mae graddfa'r ehangiad hwn yn golygu bod y penderfyniadau a wneir heddiw yn llywio ein moroedd am genedlaethau. Os ailadroddir camgymeriadau gwynt daearol, gallai'r effeithiau fod yn drychinebus i gymunedau arfordirol ac ecosystemau morol sydd eisoes dan bwysau.

Mae graddfa'r ehangiad hwn yn golygu bod y penderfyniadau a wneir heddiw yn llywio ein moroedd am genedlaethau. Os ailadroddir camgymeriadau gwynt daearol, gallai'r effeithiau fod yn drychinebus i gymunedau arfordirol ac ecosystemau morol sydd eisoes dan bwysau.



© Colin Ward / Adobe Stock

# GWYNT ALLTRAETH - BETH YW'R BROBLEM?

**Er mwyn sicrhau bod twf gwynt alltraeth Prydain yn darparu buddion i bobl a byd natur o'r cychwyn cyntaf, rydym wedi comisiynu adroddiad ymchwil ar sut mae'r sector yn cyd-fynd â dad-ddofi morol. Gwnaeth yr adolygiad archwiliad manwl o effeithiau ffermydd gwynt alltraeth ar rywogaethau, cynefinoedd, prosesau naturiol a chymunedau - fel y gallwn adnabod y risgiau i'w lleihau a'r cyfleoedd i fanteisio arnynt.**

## EFFEITHIAU ECOLEGOL

Dengys yr ymchwil bod yr amhariad yn amrywio fesul cyfnod cylch bywyd. Mae adeiladu'r tyrbinau hyn yn amharu'n arw, gydag effeithiau negyddol cryf ar sawl rhywogaeth o bysgod (e.e. lleden fannog, penfras, llythen, lleden) a rhai rhywogaethau o adar (e.e. gwylog gyffredin, gwylan y graig ogleddol, cochyn). Gall blynyddoedd gweithredol, fodd bynnag, gynnig cyfleoedd ar gyfer gwella ecolegol, megis cael gwared ar bwysau eraill fel treillio gwaelodol o ardal y prosiect. Mae datgomisiynu yn cyflwyno heriau unigryw fel yr ardal gyda'r bylchau mwyaf mewn data. Gan fod digolledu amgylcheddol yn gymhleth ac yn gorfod bod y dewis olaf, y brif flaenoriaeth yw lleihau effeithiau drwy leoli strategol.

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Mae'n amlwg o'r ymchwil bod ffermydd gwynt yn ail-lunio hunaniaeth, diwylliant ac economïau arfordirol trwy addasu morweddau. Dengys hefyd fod buddion economaidd - yn enwedig swyddi ac incwm - yn cael eu gorbwysleisio'n aml ar hyn o bryd. Mae'r cam adeiladu yn amharu'n arw. Hefyd mae'n cynrychioli adeg y colledion economaidd mwyaf, gyda dim ond 30% o'r gwariant yn aros o fewn y DU. Mae angen buddsoddi a chynllunio'n ystyrlon er mwyn cael y buddion mwyaf i gymunedau lleol.

# GWELEDIGAETH AR GYFER DAD-DDOFI MOROL A GWYNT ALLTRAETH

**Felly, beth yw da mewn ynni gwynt alltraeth, a sut y gall helpu i gynyddu dad-ddofi morol? Er mwyn gweld moroedd iachach, mwy llewyrchus, rhaid i gymunedau, ymarferwyr a datblygwyr uno i fynnu dull mwy uchelgeisiol, cyson.**

Dengys ein hymchwil, mewn achosion lle mae ehangiad ynni gwynt yn manteisio ar gyfleoedd ac yn lleihau effeithiau, bod ganddo'r potensial i yrru dad-ddofi morol. Mae'r buddsoddiadau enfawr a'r sylw cyhoeddus a ddaw i'n moroedd yn cynnig cyfle prin i ail-lunio rheoli morol a rhoi hwb i ddad-ddofi drwy fwy o gyllid, newid deddfwriaethol a llythrennedd morol. Rydym angen dull system gyfan.


Pan mae dad-ddofi wedi'i integreiddio i gynlluniau datblygu, mae ynni glân yn gatalydd allweddol ar gyfer adfywio ecosystemau a chymunedau. Ond er mwyn sicrhau bod y chwyldro hwn yn cyflawni ym mhob maes, rhaid i ymarferwyr adfer morol fod yn rhan o'r darlun, ac ymuno â ni i fynnu gwell gan y sector.


**"NI FU CYMAINT O DDATBLYGU YN EIN MOROEDD ERIOED, OND ETO MAE EIN HECOSYSTEMAU A'N CYMUNEDAU DAN BWYSAU CYNYDDOL. ALLWN NI FFORDDIO I AMCANION GWYNT ALLTRAETH YN UNIG FOD YN CYNNAL Y SEFYLLFA SYDD OHONI?"**


© Seawilding

### EIN HEGWYDDORION DAD-DDOFI

- Cefnogi pobl a byd natur gyda'i gilydd
- Gadael i fyd natur arwain
- Creu economïau lleol gwydn
- Gweithio ar raddfa byd natur





# Y NEWIDIADAU YR HOFFEM EU GWELD

## 1 LLEOLI STRATEGOL

Rhaid i seilwaith gwynt alltraeth gael ei leoli ar welyau môr sy'n unffurf neu wedi dirywio, gan osgoi'r nodweddion ecolegol prin neu hanfodol. Trwy eirioli dros hyn, gallwn leihau'r effaith ar gynefinoedd, bywyd gwyllt a phrosiectau dad-ddofi. Rhaid i ffermydd gwynt gael eu rheoli'n ymaddasol wrth fonitro'n gadarn a hirdymor, a all helpu i lywio seilwaith y dyfodol.

## 2 TRWYDDEDU MOROL SYMLACH

Golyga targedau cryf ar gyfer gwynt alltraeth a bioamrywiaeth bod yn rhaid i ni ddod o hyd i ddatrysiadau i rwystrau adnabyddus ar gyfer adfer morol. Yn benodol, rhaid i'r broses drwyddedu forol ar gyfer adfer gael ei symleiddio er mwyn galluogi mentrau ar raddfa fawr. Er bod rhai datblygwyr eisoes wedi ymrwymo i effaith bioamrywiaeth cadarnhaol net - ac yn dechrau cyflawni hyn, fel y gwelwyd ym morwedd Humber - mae perygl i'r addewidion hyn gael eu rhwystro gan fframwaith trwyddedu hen ffasiwn.

## 3 FFRAMWEITHIAU ARIANNU NEWYDD

Er mwyn i'r buddsoddiad enfawr mewn ynni gwynt alltraeth gefnogi'r cynefinoedd morol y mae'n ddibynnol arnynt hefyd, rydym angen fframweithiau gorfodol ar frys - fel Cynnydd Net Morol neu Budd Net Morol - er mwyn datgloi cyllid preifat ar gyfer adfer byd natur. Mae'r her hon wedi cael ei derbyn yn dda gan gyrff anllywodraethol a diwydiant fel ei gilydd; nawr mae angen i lywodraethau weithredu.

## 4 DAD-DDOFI MOROL AR RADDFA FORWEDDOL

Rhaid i ni gefnogi a datgloi mentrau ar raddfa forweddol trwy bartneriaeth traws-sector uniongyrchol rhwng ymarferwyr a diwydiant. Hyd yn oed cyn i fframweithiau statudol gael eu sefydlu, gall partneriaethau alluogi dad-ddofi ar raddfa ddigynsail wrth helpu i lywio fframweithiau'r llywodraeth yn y dyfodol wrth dreialu dulliau newydd. Hefyd gall archwilio cyfleoedd i arloesi neu gyd-leoli helpu i lywio morweddau'r dyfodol.



© Alexander Mustard / Scotlandbigpicture.com

## 5 YMWNEUD CYMUNEDOL YSTYRLON

Mae tua thri chwarter ffermydd gwynt y DU wedi, neu'n bwriadu cyflwyno, cronfeydd budd cymunedol[1]. Trwy gydweithredu â datblygwyr, gall ymarferwyr sicrhau bod y cronfeydd hyn wirioneddol yn drawsnewidiol drwy gefnogi egwyddorion dad-ddofi, cyflogi staff lleol, blaenoriaethu buddion ystyrlon mewn nwyddau a pharhau'n dryloyw. Y tu hwnt i gyllid, dylai datblygwyr gael eu hannog i efelychu modelau daearol llwyddiannus o berchnogaeth gymunedol ar y môr.

## 6 LLYTHRENNEDD MOROL WEDI GWELLA

Wrth ehangu gwynt alltraeth caiff ein moroedd sylw amlwg, sy'n cynnig ffenestr unigryw i feithrin dealltwriaeth gyhoeddus o ecosystemau morol a datrysiadau hinsawdd. Mae'r gwelededd hwn yn gyfle delfrydol i ailgysylltu pobl gyda'n harfordiroedd drwy addysg, twristiaeth, gwyddoniaeth dinasyddion a phrosiectau creadigol.

[1] Y rhai ar waith neu'n cael eu hadeiladu ers 2010.

## 7 SAIL TYSTIOLAETH GYDWEITHREDOL

Er mwyn pontio'r gagendor gwybodaeth wyddonol ar effeithiau gwynt alltraeth, rhaid i ni gynnull grwpiau rhanddeiliaid traws-sector clir ac agored. Bydd dod â llywodraethau, datblygwyr, ymarferwyr, cyrff anllywodraethol, gwyddonwyr, pysgotwyr a chymunedau ynghyd yn darparu'r data a'r ddeialog ystyrlon sydd eu hangen i archwilio datrysiadau cydweithredu a chyd-leoli gwirioneddol.

**Mae gan bob un ohonom ddyletswydd i fynnu dad-ddofi morol ochr yn ochr ag ehangu ynni gwynt. Wrth ddod ynghyd i weithredu nawr, gallwn yrru'r newidiadau amlwg sydd eu hangen er mwyn cael moroedd iachach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**


© Howard Wood / COAST

## HELPWCH NI I DROI'R

**Mae Rewilding Britain yn ysbrydoli mudiad o ddad-ddofwyr ledled tiroedd a moroedd Prydain - ton o obaith, fel ein bod ni, gyda'n gilydd, yn gallu sicrhau dyfodol mwy gwyllt a llawn byd natur sy'n fuddiol i bawb.**

Trwy'r Rhwydwaith Dad-ddofi rydym yn cefnogi a chysylltu dad-ddofwyr ledled Prydain, gan helpu i amlygu eu lleisiau'n genedlaethol wrth i ni eirioli am newid polisi. Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim.

## DARLLENWCH YR ADRODDIAD YMCHWIL

rewildingbritain.org.uk/offshore-wind

## DYSGWCH AM Y RHWYDWAITH DAD-DDOFI

rewildingbritain.org.uk/rewilding-hub